# CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

# Y GRŴP TRAWSBLEIDIOL AR GLEFYD YR AFU

Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y Grŵp hwn yn Ystafell Gynadledda A,

Tŷ Hywel ar 21 Ionawr 2020.

Yn bresennol:

Dr Dai Lloyd AC (Cadeirydd)

Dr Andrew Yeoman (Hepatolegydd Ymgynghorol, Uned yr Afu Gwent)

Marcia Spooner (Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad)

Catherine Williams (Gofalwr)

Dr William Williams, (Claf)

O gofio mai hwn oedd cyfarfod cyntaf y Grŵp, amlinellodd y Cadeirydd, a'r Aelod a oedd yn cynrychioli'r Staff Cymorth, fod angen tri chyfarfod yn ystod y flwyddyn, ac y dylid cynhyrchu'r cofnodion cyn pen pythefnos, a bod angen paratoi adroddiad ariannol diwedd blwyddyn.

Dyma amcanion y grŵp:-

## Ymchwilio i gyflyrau'r afu a phroblemau cysylltiedig yng Nghymru.

## Adolygu cynnydd mewn perthynas â gwasanaethau'r Afu yng Nghymru ac ystyried beth sy'n eu hatal rhag gwella

Pwysleisiodd Dr Lloyd yr angen i'r Grŵp ganolbwyntio ar agweddau penodol a rhoddodd enghreifftiau o'r modd y cafwyd canlyniadau da mewn meysydd meddygol eraill yng Nghymru, fel Hepatitis C, HIV, Arennau/Trawsblaniadau, Cymhorthion Clyw Digidol. Er enghraifft, roedd y Polisi Rhoi Organau yng Nghyymru wedi datblygu o ganlyniad i drafodaethau Grŵp Trawsbleidiol, a oedd yn cynnwys dwy Elusen ymhlith ei aelodau.

Amlinellodd Dr Yeoman y risgiau sydd ynghlwm wrth glefyd yr afu ac awgrymodd y gallai'r Grŵp hwn gynnig y momentwm di-dor sydd ei angen yn dilyn gwaith Grŵp Gweithredu Clefyd yr Afu (LDIG), a sefydlwyd i weithredu'r cynigion yn 'Law yn Llaw at Iechyd - Cynllun Cyflawni ar gyfer Clefyd yr Afu i GIG Cymru a'i Bartneriaid hyd at 2020'.

Soniodd William am yr angen i ymwneud mwy â'r Gymuned Gofal Sylfaenol gan awgrymu y gallai'r Aelodau Cynulliad creu cysylltiadau â chyrff sy'n cynnig cymorth Clefyd yr Afu yn eu hetholaeth. Yn ogystal, roedd angen pennu nifer y cleifion sydd â chlefyd yr afu a lle maent yn byw, a gweld sut mae lleoliad y cyfleusterau meddygol presennol yn cyd-fynd â hynny. Roedd Ymddiriedolaeth yr Afu Prydain wedi cynnal rhaglen Ffibrosgan, 'Love your Liver,' ac awgrymwyd y dylai'r canlyniadau sy'n berthnasol i Gymru fod ar gael i'r Grŵp.

Cytunodd Dr Yeoman y gellid rhoi’r wybodaeth hon i'r Grŵp yn ogystal â "Phroffiliau Clefyd yr Afu" ar gyfer ardaloedd yr awdurdodau / byrddau iechyd lleol y mae'r aelodau’r Grŵp yn eu cynrychioli. Byddai'r data hwn yn ymdrin â’r beichiau cysylltiedig â chlefyd yr afu ac yn disgrifio'r gwasanaethau sydd ar gael yn yr ardaloedd hyn. Gallai fod yn ddefnyddiol hefyd o ran rhoi cyd-destun a meincnodi a gallai ddangos ym mha ardaloedd y mae angen cymorth penodol.

Ar ôl trafodaethau cyffredinol ychwanegol, yn ymdrin â phynciau cysylltiedig, cytunwyd mai un ffordd ymlaen fyddai paratoi rhestr fer o bynciau penodol i’w chyflwyno yn y cyfarfod nesaf i bennu blaenoriaethau’r grŵp . Byddai’r rhain yn cynnwys nid dim ond heriau, ond yr hyn y gellid ei gyflawni’n ystyrlon mewn perthynas â hwy.

Yn dilyn trafodaeth bellach rhwng William Williams ac Andrew Yeoman yn dilyn y cyfarfod, nodwyd tri maes blaenoriaeth i roi sylw iddynt. Mae'r rhain yn cyd-fynd â blaenoriaethau lefel uchel y Grŵp Gweithredu Clefyd yr Afu.

1) Prinder timau gofal alcohol digonol yn ysbytai Cymru
2) Diagnosis hwyr o glefyd yr afu mewn gofal sylfaenol
3) Adnoddau annigonol mewn gofal eilaidd i gwrdd â baich cynyddol clefyd yr afu a'r driniaeth cysylltiedig

Awgrymodd Dr Lloyd y gellid gwahodd eraill sydd â diddordeb i fod yn rhan o'r Grŵp ac felly bydd William ac Andrew yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod Ymddiriedolaeth Afu Prydain a rhanddeiliaid allweddol eraill yn rhan o’r gwaith, fel gweithwyr proffesiynol gofal iechyd eraill sy'n ymwneud â chlefyd yr afu a chydweithwyr yn y gwasanaethau gofal sylfaenol.

Byddai'r cyfarfod nesaf yn cynnwys 3 chyflwyniad byr - pob un yn 10 munud o hyd

Ymddiriedolaeth Afu Prydain fydd yn rhoi’r cyflwyniad cyntaf a hynny ar faich cynyddol clefyd yr afu. Cyflwyniad gan glaf fydd yr ail, yn canolbwyntio ar y profiad o fyw gyda chlefyd yr afu o ran bywyd personol y claf, a’i yrfa. Yn olaf, bydd Andrew yn siarad am y 3 phrif flaenoriaeth a sut y gallai'r Grŵp ddylanwadu ar y rhain.